# Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol

Addysg

1. **Polisi Cyffredinol**

Mae Cyngor Gwynedd yn darparu cludiant am ddim i ddysgwyr sy'n byw yn y Sir ac sydd wedi eu cofrestru mewn ysgol neu uned a gynhelir gan y Cyngor dan yr amgylchiadau canlynol:

● Ysgolion Cynradd - i ddysgwyr sydd yn byw 2 filltir neu drosodd o'r ysgol y maent yn byw yn ei dalgylch, neu'r ysgol agosaf.

● Ysgolion Uwchradd - i ddysgwyr sydd yn byw 3 milltir neu drosodd o'r ysgol y maent yn byw yn ei dalgylch, neu'r ysgol agosaf.

● Dysgwyr gydag anghenion addysgol arbennig neu anableddau yn unol ag argymhellion y Cyd Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig.

Disgwylir i ddysgwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd (ag eithrio'r sawl sydd ag anghenion addysgol arbennig neu anableddau) gerdded hyd at 2 filltir i gyfarfod ag unrhyw gludiant a ddarperir gan Gyngor Gwynedd.

Er mwyn derbyn cludiant am ddim mae disgwyl i rieni dysgwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd gwblhau ffurflen gais am gludiant a'i dychwelyd i'r Swyddfa Addysg.

Mae derbyn cludiant am ddim yn amodol ar i'r dysgwr gydymffurfio a'r côd ymddygiad ar gyfer cludiant ysgol. Cyfrifoldeb rhieni / gwarcheidwad yw sicrhau cydymffurfiaeth a'r côd ymddygiad. Gall peidio â chydymffurfio arwain at golli'r hawl i gael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol . Os collir hawl i gludiant am ddim, cyfrifoldeb y rhieni / gwarcheidwad yw ysgwyddo'r gost cludiant o'r cartref i'r ysgol.

(Mae'n ofynnol i ddysgwyr sydd yn mynychu ysgol heblaw'r ysgol dalgylch neu'r ysgol agosaf wneud eu trefniadau teithio eu hunain ac ysgwyddo'r gost.)

2. **Cynllun Seddau Gweigion**

Gall dysgwyr sydd yn byw llai na 2 filltir (ysgol gynradd) neu 3 milltir (ysgol uwchradd) sydd heb hawl i gludiant am ddim fanteisio'n amodol ar unrhyw seddau gweigion yng ngherbydau cytundeb y Cyngor

Mae manteisio ar y cynllun yn amodol ar :-

● bod seddau gweigion ar gael

● nid oes angen i'r cerbyd wyro oddi ar ei daith arferol

● nid oes costau ychwanegol i'r Cyngor

● talu'r ffi seddau gweigion cyfredol

Mae'r Cyngor yn fodlon ystyried ceisiadau gan ddysgwyr sydd yn mynychu ysgol heblaw'r ysgol dalgylch i fanteisio yn amodol ar unrhyw seddau gweigion ar gerbydau cytundeb drwy dalu'r ffi all-

(Nid yw’r cynllun seddau gweigion ar gael ar gytundebau sydd yn cael eu darparu trwy ddefnyddio gwasanaeth bws cyhoeddus.)

3. **Ffyrdd cerdded**
Pan fydd dysgwr yn byw llai na 2 filltir (ysgol gynradd) neu 3 milltir (ysgol uwchradd) o’r ysgol dalgylch, ac felly heb hawl i gludiant am ddim, ond sydd yn teithio i’r ysgol ar hyd ffyrdd a ystyrir yn arbennig o beryglus gan y Cyngor, cynigir cludiant am ddim.

Y diffiniad o ffordd beryglus yw lle mae natur y ffordd (sy’n cynnwys llwybrau cyhoeddus) yn golygu nad yw’n rhesymol disgwyl i ddysgwr o’i oed gerdded (gyda hebryngwr fel y bo angen) yn gymharol ddiogel. Wrth asesu’r diogelwch cymharol, bydd y Cyngor yn ymgymryd ag asesiad o’r risgiau y gallai dysgwr eu hwynebu ar hyd y ffordd a bennwyd (gan gynnwys, er engraifft, afonydd, ffosydd, cyflymder y traffig ar hyd y ffordd gyfagos, bodolaeth goleuadau stryd, hanes damweiniau, coed neu ganghennau sy’n crogi drosodd a all amharu ar allu cerddwyr neu yrrwyr i weld, ayyb). Bydd yr asesiad yn cael ei gynnal ar adegau o’r dydd a diwrnodau’r wythnos pryd y bydd disgwyl i ddysgwyr ei defnyddio.

Y ffordd fyrraf sydd ar gael yw’r ffordd nid yw yn arbennig o beryglus ym marn y Cyngor ar ôl asesu’r ffyrdd eraill sydd ar gael ar gyfer y daith.

4. **Dysgwyr yn symud i fyw yn ystod cwrs arholiad**
Bydd y Cyngor yn cyfrannu at gostau teithio dysgwr sydd yn symud i fyw i ddalgylch newydd yn ystod blwyddyn arholiad allanol, neu’r flwyddyn flaenorol, e.e cwrs Safon A neu TGAU, ag sydd yn dymuno cwblhau’r cwrs yn yr un ysgol sydd yn gwasanaethu ei hen gartref trwy un o’r dulliau canlynol:-

- Cynnig teithio am ddim pan mae modd trefnu cludiant heb gost ychwanegol i’r Cyngor.
- Cynnig talu swm hyd at uchafswm sy’n cyfateb i 20 milltir o deithio dyddiol yn ôl graddfa lwfans teithio cyfredol cenedlaethol cludiant cyhoeddus llywodraeth leol.

Bydd unrhyw daliad yn cael ei wneud ar ddiwedd pob tymor am bob diwrnod mae’r dysgwr wedi ei gofnodi’n bresennol ar gofrestr yr Ysgol.